**Swyddfeydd Ymgyrchu Plaid Brexit**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

12 Tachwedd 2019

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 15 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

*Annwyl Gynulliad Cenedlaethol Cymru,*

*Gwelaf fod Cwmni Brexit wedi sefydlu Swyddfeydd Ymgyrchu yn yr ardaloedd lle cawsant eu hethol. A yw'r swyddfeydd hyn yn cyflawni unrhyw bwrpas arall, neu ai dim ond talu am ofod hysbysebu'r Cwmni mae pobl Cymru?*

*Yn gywir,*

Gweler yr ymateb isod.

Mae'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau yn darparu Lwfans Costau Swyddfa i ad-dalu'r Aelodau am holl gostau rhesymol rhedeg swyddfa ac ymwneud ag etholwyr.

Gall Aelodau Plaid Brexit, fel holl Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fanteisio ar lwfans o £18,260 at y dibenion hyn. Mae'r penderfyniad yn nodi bod rhaid peidio â gwneud cais am wariant sy'n ymwneud â gweithgareddau plaid wleidyddol.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:
Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu yn ysgrifenedig at:
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF